**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

23 Rhagfyr 2024

**Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru**

Annwyl Eluned

Yn dilyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 13 Rhagfyr 2024, byddem yn croesawu cael peth gwybodaeth ychwanegol am y canlynol i lywio ein gwaith cysylltiadau rhyngwladol:

Y Strategaeth Ryngwladol

Yn ystod y cyfarfod, buom yn trafod nad oeddech yn bwriadu adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol yn gynnar y flwyddyn nesaf, ond yn hytrach yn bwriadu canolbwyntio adnoddau ar gynllun cyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei gyflawni.

- Deellir bod y cynllun cyflawni yn cael ei ddatblygu o hyd. A allwch chi ddarparu amserlen ar gyfer y cynllun cyflawni?
- A wnaiff Llywodraeth Cymru roi briff i'r Pwyllgor ar y cynllun cyflawni?

Yn ystod y cyfarfod, roeddech yn cydnabod rôl y Pwyllgor o ran craffu ar waith Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol. Roeddech yn ymrwymo hefyd i ddarparu gwybodaeth fanwl yn yr adroddiad blynyddol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud asesiad ystyrlon o gynnydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Byddem yn gofyn:

- A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu amlinellu ei chynnydd yn erbyn y 270 o gamau gweithredu sy'n cefnogi'r Strategaeth Ryngwladol, a'r cynlluniau gweithredu sy'n cyd-fynd â hi, yn yr adroddiad blynyddol.

- Os nad hwn yw'r bwriad, byddem yn gofyn pa fetrigau fydd yn cael eu defnyddio i fonitro ac adrodd ar gyflawniad y Strategaeth Ryngwladol, a sut maent yn gwella tryloywder a gweledEdd i'r cyhoedd?

Yn ei lythyr at y Pwyllgor ar 1 Awst 2024, bu'r cyn-Brif Weinidog yn trafod dull trawslywodraethol y Strategaeth Ryngwladol. Dywedodd fod "...timau cyflawni gwahanol yn gyfrifol am gyflawni'r gweithgarwch".

- A allai Llywodraeth Cymru gadarnhau nifer y timau cyflawni sy'n weithgar o ran cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, ac ym mha gyfarwyddiaethau y maent yn gweithredu?

### Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

Yn ei lythyr uchod, tynnodd y cyn-Brif Weinidog ein sylw hefyd bod gweithgor yr UE a Masnach wedi'i greu a dywedodd fod "...swyddogion wedi dechrau archwilio lle rydym yn credu y gallai unrhyw newidiadau posibl i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu fod o fudd i Gymru yn y tymor hwy". Mae Jeremy Miles AS, y cyn Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, a Lesley Griffiths AS, y cyn Ysgrifennydd Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, a ysgrifennodd at y Pwyllgor ar 20 Mehefin, eisoes wedi rhoi pedair blaenoriaeth ar gyfer y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

- A allwch chi gadarnhau a oes blaenoriaethau pellach wedi'u nodi?

Yn y sesiwn craffu ar gysylltiadau rhyngwladol ar 19 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor i sesiwn friffio dechnegol gan Lywodraeth Cymru ar adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a dywed y llythyr y bydd "ar ddechrau tymor yr hydref".

- A all y Pwyllgor gael dyddiad ar gyfer y sesiwn friffio hon?

### Blynyddoedd 'Cymru yn...'

Dywedodd y cyn-Brif Weinidog y byddai swyddogion yn rhannu rhagor o fanylion am y gwerthusiad annibynnol o'r flwyddyn Cymru yn Ffrainc.

- A allwch chi rannu'r wybodaeth hon?

Mae llythyr y cyn-Brif Weinidog yn nodi "mae cyd-fynd â blaenoriaethau a rhaglenni'r DU a rhai rhyngwladol yn hanfodol er mwyn cynyddu cyrhaeddiad, sicrhau ffrydiau ariannu ychwanegol a pherchnogaeth".

- A allwch chi gadarnhau pa ymgysylltu a fu â Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer 'Cymru yn' 2026?

Nododd y cyn-Brif Weinidog "hyd yn hyn, mae'r ffocws wedi bod ar wledydd lle mae gennym bresenoldeb mewn marchnadoedd tramor. Wrth i'r rhaglen dyfu, bydd mwy o bwyslais ar fonitro a gwerthuso yn datblygu'r meini prawf hyn ymhellach".

- Sut mae canfyddiadau gwerthusiadau hyd yma wedi dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer blynyddoedd 'Cymru yn', gan gynnwys lleoliadau yn y dyfodol?

### Cynrychiolydd Cymru yn Ewrop

- A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol rôl cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Ewrop?

Byddem yn ddiolchgar am ymateb i'r materion a godwyd yn y llythyr hwn erbyn 24 Ionawr 2025.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.